Awst 2020

## ***Rheoliadau newydd ar orchuddion wyneb ar gyfer cludiant cyhoeddus***

Rydym ni'n ysgrifennu yn dilyn rheoliadau newydd Llywodraeth Cymru sy'n ei gwneud yn ofynnol i deithwyr sy'n defnyddio cludiant cyhoeddus yng Nghymru wisgo gorchuddion wyneb.

Rydym ni'n cydnabod ei bod hi'n gyfnod heb ei debyg o'r blaen, ac efallai bod angen gweithred o'r fath er mwyn atal lledaeniad pellach o'r Coronafeirws yng Nghymru. Os gall pobl wisgo gorchuddion wyneb heb achosi gofid neu bryder difrifol, dylent wneud hynny.

Serch hynny, i'r rheini sydd ag esgusodion rhesymol i beidio gwisgo gorchudd wyneb, mae'r rheoliadau'n glir eu bod wedi'u heithrio rhag gwisgo un. Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi enghreifftiau o'r adegau nad oes rhaid i bobl wisgo gorchudd wyneb, sy'n cynnwys os nad yw rhywun yn gallu rhoi gorchudd wyneb neu wisgo gorchudd wyneb oherwydd nam neu anabledd.

Mae hyn yn golygu na fydd rhai pobl awtistig yn gwisgo gorchudd wyneb. Rydym wedi llunio'r daflen wybodaeth sydd ynghlwm yr hoffem ei rannu â chi a'r staff ar draws eich sefydliad, er mwyn iddynt fod yn ymwybodol o'r rheolau yma a rhai o'r rhesymau y tu ôl iddynt.

Mae canllaw Llywodraeth Cymru yn cydnabod:

*'Nid yw anableddau na namau bob amser yn weladwy i eraill, a dylid dangos* ***parch*** *a* ***dealltwriaeth*** *tuag at y rhai sydd â rhesymau da dros beidio â gwisgo gorchuddion wyneb'*.

Rydym yn gobeithio y bydd hyn yn helpu pobl awtistig i deithio ar gludiant cyhoeddus heb deimlo eu bod yn cael eu beirniadu, na theimlo pwysau i wisgo gorchudd wyneb.

Yn ogystal â'r daflen wybodaeth a ddarparwyd, mae yna nifer o bethau y gall teithiwr awtistig ei gario gyda nhw i'w helpu i gyfathrebu unrhyw anawsterau sydd ganddynt. Mae'r rhain yn cynnwys cerdyn y gellir ei lawrlwytho gan sefydliad awtistiaeth cydnabyddedig, cortyn gwddf blodyn haul neu Orange Wallet.

Ystyriwch rannu'r wybodaeth bwysig yma ar draws eich sefydliad ac mae croeso i chi gysylltu â Samuel Stone yng Nghymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol Cymru os oes gennych ragor o gwestiynau, samuel.stone@nas.org.uk <mailto:samuel.stone@nas.org.uk> neu 07483031540, neu aelod o'r tîm yn Nhîm Awtistiaeth Cenedlaethol Cymru <https://www.asdinfowales.co.uk/cy/>, 02920 468675 neu drwy e-bostio asdinfo@wlga.gov.uk <mailto:asdinfo@wlga.gov.uk> .

Yn ddiffuant,

| | | |
|---|---|---|
| Samuel Stone<br>Rheolwr Materion Allanol<br>Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru | Sara Harvey<br>Arweinydd Strategol<br>Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol | Wendy Thomas<br>Arweinydd Proffesiynol<br>Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol |

National Autistic Society Cymru

Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol
National Autism Team
www.ASDinfoWales.co.uk